



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at groesawu'ch plentyn yn ôl i'r Ysgol Gymraeg ym mis Medi. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i'ch diweddarau am nifer o faterion wrth i chi baratoi ar gyfer hynny.**

Bydd pob blwyddyn ysgol ar draws Ceredigion yn dychwelyd i'r ysgol yn y drefn a ganlyn:

**Trefniadau ail agor mis Medi** – mi fydd yna ail agor graddol gyda gwahanol flynyddoedd yn dychwelyd ar ddiwrnodau penodol;  
Dydd Mawrth, Medi'r 1af a dydd Mercher, Medi'r 2ail - diwrnodau cynllunio i'r staff, yr ysgol ar gau i ddisgyblion  
Dydd Iau, Medi'r 3ydd – Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 yn dychwelyd (150 o ddisgyblion)  
Dydd Gwener, Medi'r 4ydd – Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 yn unig  
Dydd Llun, Medi'r 7fed – Meithrin, Derbyn, Blynnyddoedd 1 a 2 (200 o ddisgyblion)  
Dydd Mawrth, Medi'r 8fed – Meithrin, Derbyn, Blynnyddoedd 1, 2, 5 a 6 yn dychwelyd (300 o ddisgyblion)  
Dydd Mercher, Medi'r 9fed – Meithrin, Derbyn, Blynnyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6 (pawb yn dychwelyd 400 o ddisgyblion)

Rydyn ni fel ysgol wedi bod yn ddyfal yn sicrhau diogelwch pawb wrth inni dychwelyd i'r ysgol ac am sicrhau bod cymaint o fesuriadau rheoli ag sy'n bosib mewn lle gennym. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau hylendid da, gyda chyfluoedd golchi dwylo rheolaidd gydol y dydd a chyflenwadau o 'sanitiser' mewn llefydd ble nad ydy golchi dwylo yn bosib
- Digon o awyr iach mewn dosbarthiadau ac felly bydd y ffenestri yn cael eu cadw ar agor er mwyn sicrhau hyn
- Parhau i gymryd tymheredd pob plentyn a bydd unrhyw blentyn â thymheredd o 37.8 gradd neu'n uwch yn cael ei ddanfôn adre
- Glanhau yn digwydd yn ystod y dydd, yn ogystal ag ar ôl oriau ysgol
- Disgyblion mewn grwpiau cyswllt penodol ac yn cadw i'r grwpiau hynny gydol y dydd
- Lleihau cymaint o symud ag sydd yn bosib o amgylch y safle a rhwng dosbarthiadau
- Disgyblion yn eistedd yn wynebu blaen y dosbarth, yn hytrach nag yn wynebu ei gilydd
- Bydd y dull Orlhain a Phrofi ar waith yn yr ysgol pe bai unrhyw achos o Covid-19

**Darpariaeth ac Offer** - mae croeso i chi ddod a châs pensiliau i'r ysgol fodd bynnag mi fydd angen sicrhau nad ydy offer personol e.e. pensil, pren mesur ayyb yn cael ei rannu yn ystod y dydd -. Byddwn yn sicrhau bod eich plentyn yn derbyn profiad addysgol mor llawn ag sydd yn bosib oddi fewn i'r amgylchiadau hyn. Er hyn, bydd rhai agweddau ymarferol o bynciau yn anodd inni ddarparu yn y cyfnod cychwynnol hwn.

**Amseroedd cyrraedd** – mi fydd cyfle i chi adael eich plant ger yr ysgol unrhyw bryd rhwng 8.30 a 9.00 o'r gloch. Mi fydd staff cynorthwyol yr ysgol yn cwrdd â'r plant ar y palmant tu allan i'r ysgol ac yn eu cyfeirio i'w dosbarthiadau. Ni fydd modd i rieni / gwarcheidwaid gael mynediad i'r ysgol.

**Disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf** – er mwyn hwyluso anwythiad y disgyblion i'r Meithrin rydym wedi gwneud trefniadau er mwyn sicrhau fod cyfle i chi gyrraedd ychydig yn hwyrach ac ar amseroedd penodol yn ystod y diwrnodau cyntaf – manylion wedi eu dosbarthu gan staff y Meithrin.

**Trefniadau egwyl** – mi fyddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod disgyblion yn aros yn eu grwpiau dosbarth drwy gydol y dydd gan gynnwys amser egwyl ac amser cinio. Rydym wedi creu system i sicrhau fod plant yn cael egwyl a chinio yn eu grwpiau dosbarth.



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Bwyd / Cinio ysgol** - bydd y gegin yn ail agor ar ddydd Llun 14eg Medi. Yn y cyfamser, bydd angen i ddisgyblion ddod â thocyn bwyd. Bydd disgyblion sydd fel arfer yn hawlio Prydau Ysgol am Ddim yn parhau i dderbyn y taliad neu daleb archfarchnad hyd nes ddydd Gwener 11eg Medi. Bydd angen i bob disgybl sicrhau cyflenwad digonol o ddŵr gydol y dydd os gwelwch yn dda.

Bydd disgyblion oed Cyfnod Sylfaen yn parhau i dderbyn llaeth amser egwyl.

Bydd disgyblion sydd fel arfer yn derbyn eu brecwast yn yr ysgol yn derbyn brecwast megis ffrwyth/iogwrt i fwyta yn y dosbarth ben bore. Bydd angen ichi gysylltu gyda ni ar e bost [swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk) i nodi os ydy'ch plentyn am dderbyn brecwast er mwyn inni sicrhau cyflenwad digonol o fwyd. Bydd angen inni dderbyn gwybodaeth am y niferoedd sydd angen brecwast **erbyn 1af Medi** os gwelwch yn dda.

Ni fydd y Clwb Brecwast yn ail agor am y tro, a byddwn yn adolygu'r sefyllfa erbyn canol Medi.

**Casglu plant ar ddiwedd dydd** - Er mwyn anelu at sefyllfa lle mae rhieni / gwarcheidwaid yn ymbellhau cymdeithasol rydym am ddilyn yr amserlen isod am gyfnod er mwyn lleihau'r nifer o rieni / gwarcheidwaid sydd wrth gât yr ysgol ar yr un adeg;

**3 o'r gloch – Meithrin a Derbyn** yn cael eu casglu o iard y Meithrin a drysau'r Derbyn (gweler fideo'r Meithrin a'r Derbyn)

**3.10 - disgyblion B1 1** yn cael eu casglu ger y brif fynedfa (a brodyr a chwiorydd iau)

**3.10 – disgyblion B1 2** yn cael eu casglu ger y gatiâu dwbl gwyrdd ar y cae ger y pafiliwn (a brodyr a chwiorydd iau) mae llwybr newydd wedi ei greu ar gyfer Medi.

**3.20 – disgyblion B13** yn cael eu casglu ger y brif fynedfa (a brodyr a chwiorydd iau)

**3.20 – disgyblion B1 4** yn cael eu casglu ger y gatiâu dwbl gwyrdd ar y cae ger y pafiliwn (a brodyr a chwiorydd iau)

**3.30 – disgyblion B1 5** yn cael eu casglu ger y brif fynedfa (a brodyr a chwiorydd iau)

**3.30 - disgyblion B16** yn cael eu casglu ger y gatiâu dwbl ar y cae ger y pafiliwn (a brodyr a chwiorydd iau)

**COFIWCH** - OS OES GENNYCH FWY NAG UN PLENTYN YN YR YSGOL YNA DEWCH I'W CASGLU PAN FYDD EICH PLENTYN HYNAF YN GADAEL AR DDIWEDD DYDD. Mi fydd brodyr neu chwiorydd iau yn cael eu gwarchod tan iddynt fynd i'r ardal gasglu gyda'r plentyn hŷn, e.e. os oes gennych un plentyn yn y Derbyn ac un ym Mlwyddyn 4 yna dewch i gasglu'r ddau am 3.20.

**Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa yn gyson, a bydd y trefniadau uchod yn cael eu newid yn unol ag amgylchiadau.**

**Fideo** - mi fyddwn yn rhannu fideo gyda chi cyn dechrau'r tymor newydd er mwyn darparu rhagor o wybodaeth ac arweiniad am y trefniadau diweddaraf.

Rydym yn cynllunio'n ofalus ar gyfer gwneud yn siŵr bod y profiad o ddychwelyd i'r ysgol yn un cadarnhaol i'ch plentyn. Bydd disgwyl i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol yn nhymor yr Hydref a'r gweithdrefnau presenoldeb arferol yn cael eu dilyn. Os oes gyda chi unrhyw ofidiau neu yr hoffech chi sgwrs bellach mae pob croeso ichi gysylltu gyda ni yn yr ysgol. Mae nifer o fesurysyddion diogelu yn cael eu gweithredu er lles pawb, a byddwn yn ymroi i sicrhau bod profiad dysgu eich plentyn yn ystyrlon a hwyliog a hynny mewn amgylchedd diogel.

**Diolch o galon ichi fel rhieni/gwarcheidwaid am eich cefnogaeth barhaus, rydym yn ei werthfawrogi'n fawr.**

**R C Williams, Pennaeth, 21/08/2020**



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

***We are very much looking forward to welcoming your child back to Ysgol Gymraeg in September. I would like to take this opportunity to update you on a number of matters as you prepare.***

*Every year group across Ceredigion schools will return to school in the following order:*

***September re-opening arrangements*** – there will be a gradual re-opening with different year groups returning on specific days;  
*Tuesday, September 1st and Wednesday, September 2nd - staff planning days, school closed for pupils*  
*Thursday, September 3rd - Nursery, Reception and Year 1 return (150 pupils)*  
*Friday, September 4th - Nursery, Reception and Year 1 only*  
*Monday, September 7th - Nursery, Reception, Years 1 and 2 (200 pupils)*  
*Tuesday, September 8th - Nursery, Reception, Years 1, 2, 5 and 6 return (300 pupils)*  
*Wednesday, September 9th - Nursery, Reception, Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 (all 400 pupils returning)*

*As a school we have been diligent in ensuring everyone's safety as we return to school and want to ensure we have as many control measures in place as possible. This includes:*

- Ensuring good hygiene, with plenty of hand washing opportunities during the day and supplies of sanitiser in places where hand washing is not possible.*
- Plenty of fresh air in classrooms and therefore the windows will be kept open to ensure this.*
- Continuing to take every child's temperature, and any child with a temperature of 37.8 degrees or higher will be sent home.*
- Cleaning will take place during the day as well as after school hours.*
- Pupils in defined contact groups for the school day*
- Managing the movement of pupils around the school site and between classrooms.*
- Pupils will sit facing the front of the class as opposed to facing each other.*
- The Test and Trace method will be implemented in the school in the event of a case of Covid-19.*

***Provision and Equipment*** - *pupils are welcome to bring a pencil case to school however there will be a need to ensure that personal equipment e.g. pencils, rulers etc. are not shared during the day. We will ensure that you child has a broad curriculum offer within the confines of the current situation. However, some aspects of practical subjects may be difficult to offer during the early period of school re-opening.*

***Arrival times*** - *you will be able to drop off your children at school anytime between 8.30 and 9.00 pm. The school support staff will meet the children on the pavement outside the school and direct them to their classes. Parents / guardians will not be able to access the school.*

***Pupils starting school for the first time*** - *to facilitate the induction of new pupils into the Nursery we have made arrangements to ensure that you have the opportunity to arrive a little later and at specific times during the first few days – details already distributed by Nursery staff.*

***Break time arrangements*** - *we will make every effort to ensure that pupils stay in their class groups throughout the day including break times and lunch times. We have created a system to ensure that children have their break times and lunch in their class groups.*



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Food / School lunches** - the kitchen will reopen on Monday 14th September. In the meantime, pupils will need to bring a packed lunch. Pupils who usually claim Free School Meals will continue to receive the payment or supermarket voucher until Friday 11th September.

All pupils will need to ensure a sufficient supply of water throughout the day.

Foundation Phase pupils will continue to receive milk during break time. The fruit shop will not reopen for the time being.

Pupils who usually receive their breakfast in school will receive a breakfast such as fruit/yoghurt to eat in the class first thing in the morning. You will need to contact us by e-mailing [swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk) by **1st September** to indicate if your child wants to receive breakfast so that we can ensure a sufficient supply of food.

The Breakfast Club will not be reopening for the time being, and we will review the situation mid-September.

**End of day collection** - In order to aim for a situation where parents / guardians are socially distanced we want to follow the timetable below for a period of time in order to reduce the number of parents / guardians at the school gate at the same time;

**3 o'clock** - Nursery and Reception collected from the Nursery yard and Reception doors (see Nursery and Reception video)

**3.10** - Year 1 pupils collected near the main entrance (and younger siblings)

**3.10** - Year 2 pupils collected near the green double gates on the field near the pavilion (and younger siblings) a new path has been created for September.

**3.20** - Y3 pupils collected near the main entrance (and younger siblings)

**3.20** - Yr 4 pupils collected near the green double gates on the field near the pavilion (and younger siblings)

**3.30** - Year 5 pupils collected near the main entrance (and younger siblings)

**3.30** - Year 6 pupils collected near the double gates on the field near the pavilion (and younger siblings)

**REMEMBER - IF YOU HAVE MORE THAN ONE CHILD AT SCHOOL THEN PLEASE COLLECT YOUR CHILDREN WHEN YOUR ELDEST CHILD FINISHES AT THE END OF THE DAY.** Younger siblings will be supervised until they enter the collection area with the older child, e.g. if you have one child in Reception and one in Year 4 then please collect both of them at 3.20.

**We will continue to keep the situation under review, and the above arrangements will be changed in accordance with circumstances.**

**Video** – We will be sharing a video with you before the start of the new term to provide further information and guidance with regards to the latest arrangements at Ysgol Gymraeg.

We are planning carefully to ensure that the experience of returning to school is a positive one for your child. Children will be expected to return to school in the Autumn term and usual attendance procedures will be applied. If you have any concerns or would like to contact us with further questions you are more than welcome to do so by contacting the School.

Despite the number of safeguarding measures that will be implemented to ensure the wellbeing of all, we will be committed to ensuring that your child's learning experience is meaningful, enjoyable and within a safe environment.

**A sincere thank you to you as parents/guardians for your continued support, we really appreciate it.**

**R C Williams, Headteacher, 21/08/2020**